Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# **Eglurhad** o filiau ynni cartref wedi'i ddiweddaru


**Taflen ffeithiau 97** 18.01.11 www.ofgem.gov.uk

**Mae nifer o elfennau i fil nwy neu drydan eich cartref. Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y rhain, ynghyd â manylion am beth y gallwch ddisgwyl ei weld ar eich bil a sut y gallwch wneud arbedion.**

## Beth sydd ar fil ynni nodweddiadol?

**Dadansoddiad o filiau nwy a thrydan. Mae hyn yn adlewyrchu prisiau nwy a thrydan ym mis Ionawr 2011.**

**£608 yw'r bil nwy cyfartalog ar gyfer cyfrif debyd uniongyrchol safonol. Mae'n £424 ar gyfer trydan**




Mae'r biliau cyfartalog uchod yn seiliedig ar ddefnydd blynyddol cyfartalog o 3,300 kWh am drydan ac 16,500 kWh am nwy, wedi'u cyfartaleddu ar draws pob un o'r chwe chyflenwr mawr a ledled Prydain Fawr. Cyflwynwyd y ffigurau diwygiedig hyn ar gyfer defnydd cartrefi nodweddiadol o ynni ar 17 Ionawr 2011. Gweler taflen ffeithiau rhif 96 Ofgem: Ffigurau Defnydd Domestig Nodweddiadol o Ynni.

## Egluro elfennau gwahanol eich bil

| Elfen | % o'r bil nwy | % % o'r bil trydan | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| **Ynni cyfanwerthol, costau cyflenwi a maint elw** | 64% | 63% | Ynni cyfanwerthol: Cost y nwy neu'r trydan. Gall eich cyflenwr ynni brynu hwn ar y farchnad gyfanwerthol, neu bydd ganddo gontract â generadur. Mae rhai cyflenwyr hefyd yn rhan o gwmnïau sy'n cynhyrchu eu hynni eu hunain.<br>Costau cyflenwi: Y costau sy'n gysylltiedig â rhedeg busnes gwerthu manwerthu, gan gynnwys gwerthiannau, bilio ac ati.<br>Maint elw: Yr elw a wneir gan y cyflenwr. |
| **Taliadau dosbarthu*** | 21% | 17% | Costau adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu'r pibelli nwy a'r gwifrau trydan lleol, sy'n cyflenwi ynni'n uniongyrchol i'ch cartref.<br>Codir tâl ar gyflenwyr am hyn, ac maent yn trosglwyddo'r costau hyn yn y pris maent yn ei godi arnoch am ynni. |
| **Taliadau trawsyrru*** | 3% | 4% | Cost adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu'r rhwydweithiau trawsyrru nwy pwysedd uchel a thrydan foltedd uchel.<br>Mae cwmnïau trawsyrru yn codi tâl ar ddefnyddwyr y rhwydweithiau hyn a chaiff y costau eu trosglwyddo i'r cwsmeriaid manwerthu. |
| *** Mae Ofgem yn pennu system rheoli prisiau, sy'n cyfyngu ar gyfanswm y refeniw y gall cwmnïau dosbarthu a thrawsyrru ei ennill. Rydym yn defnyddio model reoleiddio newydd, RIIO, i gael y gwerth gorau i chi, y cwsmer.** | | | |
| **TAW** | 5% | 5% | Treth ar werth.<br>Fe'i telir yn uniongrychol i Dollau EM gan y cyflenwr. |
| **Costau amgylcheddol** | 4% | 10% | Rhaglenni'r llywodraeth i arbed ynni, lleihau allyriadau a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. |
| **Darparu mesuryddion** | 2% | 1% | Cost eich mesurydd, ynghyd â chost gosod a chynnal a chadw. |

## Costau cyfanwerthol a maint elw'r cyflenwr

Mae cyflenwyr yn codi tâl arnoch am y nwy a'r trydan rydych yn ei ddefnyddio. Nid yw Ofgem yn pennu prisiau ynni. Mae gan Brydain Fawr fframwaith marchnad fanwerthu, sy'n caniatáu i gyflenwyr bennu eu prisiau eu hunain. Ond mae Ofgem yn monitro prisiau ac elw cyflenwyr, er mwyn sicrhau bod y farchnad yn gystadleuol.

**Sut mae cyflenwyr yn cael eu hynni**

Yr un yw'r nwy a'r trydan a gaiff ei ddosbarthu i'ch cartref, waeth pwy yw eich cyflenwr.

Mae cyflenwyr yn prynu trydan a nwy naill ai gan y farchnad gyfanwerthol, neu'n uniongyrchol gan gynhyrchydd trydan neu nwy. Mae rhai cyflenwyr yn rhan o gwmnïau sydd â generaduron / cynhyrchwyr eu hunain.

(Costau cyfanwerthol a maint elw'r cyflenwr - parhad)

Caiff yr ynni a ddaw gan gyflenwyr ei roi yn uniongyrchol i mewn i'r system drawsyrru. Bydd ynni'n symud o'r system drawsyrru i'r system ddosbarthu, ac yna i mewn i'ch cartref.

Cyfrifoldeb y cyflenwr yw sicrhau bod yr ynni mae'n ei roi i mewn i'r system drawyrru yr un fath â'r ynni y mae ei gwsmeriaid yn ei ddefnyddio.

**Costau ynni cyfanwerthol**

Caiff cost prynu a chynhyrchu trydan a nwy ei ystyried wrth bennu pris eich uned o ynni a dyma yw'r rhan fwyaf o'ch bill.

Gall prisiau ynni cyfanwerthol a chost tanwydd ar gyfer cynhyrchu trydan newid yn aml. Caiff rhywfaint o ynni ei brynu ar y diwrnod, ond gellir prynu swm mawr ymhell ymlaen llaw. Cyfrifoldeb y cyflenwyr yw cydbwyso eu risg a gwneud y penderfyniadau prynu gorau posibl, yn seiliedig ar beth fydd eu hanghenion a'u costau yn y dyfodol yn eu barn hwy. Gelwir y broses hon yn 'rhagfantoli'.

Bydd cyflenwyr yn prynu ynni ymlaen llaw yn tueddu i esmwytho'r costau ynni a drosglwyddir i gwsmeriaid. Mae hyn yn cadw prisiau defnyddwyr rhag codi a gostwng mor aml. Mae prisiau cyfanwerthol yn newid bob dydd, ond yn y gorffennol mae cyflenwyr wedi bod yn newid prisiau manwerthu tua unwaith neu ddwywaith y flwyddyn.

**Costau a maint elw cyflenwyr**

Mae cyflenwyr yn mynd i gostau o ganlyniad i filio, gwerthiannau, gwasanaeth cwsmeriaid a'r holl weithgareddau eraill sy'n rhan o fusnes manwerthu.

Mae Ofgem yn cyhoeddi adroddiadau ar y farchnad gyflenwi yn rheolaidd sy'n rhoi manylion am y berthynas rhwng costau ynni / busnes y cyflenwyr a'r prisiau cyfanwerthol. Ar ôl ein Harchwiliad i'r Farchnad Cyflenwi Ynni yn 2008, daethom â rheolau newydd i rym sy'n golygu bod yn rhaid i gyflenwyr gyhoeddi gwybodaeth ariannol ar wahân am gostau cyflenwi ac elw, sy'n cynyddu tryloywder ymhellach.

Mae costau gwahanol yn gysylltiedig â chyflenwi mathau gwahanol o dariffau. Felly dylai'r pris y mae cyflenwyr yn ei godi adlewyrchu'r costau sy'n gysylltiedig â'r tariff penodol hwnnw hefyd.

Mae cyflenwyr yn ystyried eu holl gostau (fel yr amlinellir yn ein dadansoddiad o'r bil), ac yna'n penderfynu ar strategeth brisio, i gystadlu am gwsmeriaid yn y farchnad.

## Taliadau rhwydwaith

Mae Ofgem yn pennu system rheoli prisiau, sy'n cyfyngu ar gyfanswm y refeniw y gall cwmnïau'r rhwydwaith nwy a thrydan ei ennill.

Rydym yn amcangyfrif bod angen i'r cwmnïau hyn fuddsoddi dros £30 biliwn yn y ddegawd nesaf. Bydd hyn yn:

- datblygu rhwydweithiau mwy deallus
- gwella diogelwch cyflenwadau
- helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

Mae Ofgem wedi datblygu model rheoliadau newydd: RIIO (Refeniw= Arloesedd + Cymhellion + Allbynnau).

Rydym yn amcangyfrif y gallai RIIO olygu bod cwsmeriaid yn talu hyd at £1 biliwn yn llai dros y deng mlynedd nesaf, nag y byddai'n rhaid iddynt o dan yr hen fodel rheoleiddio.

Mae ein dull gweithredu newydd yn annog cwmnïau'r rhwydwaith i sicrhau bod cwsmeriaid a chynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnânt. Caiff cwmnïau eu gwobrwyo am fod yn effeithlon, yn arloesol ac am ymateb i anghenion cwsmeriaid. Caiff cwmnïau sy'n methu â bodloni'r disgwyliadau hyn eu cosbi drwy leihau eu refeniw.

Mae'r model hwn sy'n seiliedig ar berfformiad yn golygu y bydd cwsmeriaid, a fydd yn talu rhan fawr o gost y buddsoddiad, yn cael y buddsoddiad angenrheidiol am bris teg.

## Costau amgylcheddol

Mae'r llywodraeth wedi rhoi nifer o raglenni amgylcheddol ar waith. Mae'r rhain yn rhoi targedau i gwmnïau ynni ar gyfer lleihau allyriadau carbon.

Nid yw'r rhain yn ardollau wedi'u rhestru ar eich bil. Ond maent yn cael effaith ar y pris y mae cyflenwyr yn ei godi arnoch am eich trydan a nwy. Fodd bynnag, bydd rhai o'r rhaglenni hyn yn eich helpu i arbed arian ar eich bil.

- Targed Lleihau Allyriadau Carbon (CERT)
- Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned (CESP)
- Y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (RO)
- Cynllun Tariff Cyflenwi Trydan (FITau)
- Cynllun Masnachu Allyriadau’r UE (ETS)

## Sut y gallwch arbed arian ar eich biliau

Waeth pa gyflenwr, neu dariff sydd gennych, dylech allu gymryd camau i ostwng eich bil nwy neu drydan.

**Effeithlonrwydd Ynni**

Gallwch edrych ar fesurau effeithlonrwydd ynni, megis inswleiddio'r atig, neu gael boeler mwy effeithiol. Mae rhai o'r rhaglenni amgylcheddol rydych yn talu amdanynt drwy eich bil yn golygu y gall eich cyflenwr gynnig help a chyngor i chi. Felly manteisiwch ar hyn drwy ofyn i'ch cyflenwr beth y gall ei wneud i'ch helpu.

Mae gan rai cyflenwyr eu llinellau cymorth effeithlonrwydd ynni eu hunain. Gall Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni hefyd roi cyngor i chi ar effeithlonrwydd ynni: 0800 512 012

**Darlleniadau Mesurydd**

Dylech ddarllen eich mesurydd yn rheolaidd, os yn bosibl. Bydd hyn yn sicrhau bod eich cyflenwr yn codi tâl arnoch am faint o ynni rydych wedi'i ddefnyddio go iawn.

**Newid cyflenwr neu dariff**

Mae ystod o dariffau ar gael, a chanddynt amrywiaeth o brisiau ac opsiynau eraill. Mae rhai tariffau'n cynnwys gostyngiad am ddebyd uniongyrchol, tanwydd deuol ac ati. Efallai y bydd gan rai gynigion effeithlonrwydd ynni. Pan fyddwch yn newid cyflenwr, dylech edrych ar bob agwedd ar y cynnig, cyn dewis pa un sy'n iawn i chi.

Pan fyddwch yn newid, neu ddefnyddio safle cymharu ar-lein, gwnewch yn siŵr bod eich bil neu gyfriflen ynni diweddaraf wrth law. Mae'n rhoi gwybodaeth werthfawr am eich defnydd o ynni a'r math o gynnig sydd gennych ar hyn o bryd. Bydd yn eich helpu i wneud cymhariaeth gywir ag unrhyw gynnig gwahanol.

## Beth y gallwch ddisgwyl ei weld ar eich biliau

Mae'n rhaid i bob cyflenwr ddarparu gwybodaeth benodol ar eich bil. Ar bob bil dylech ddisgwyl gweld:

- eich tariff
- sawl uned o drydan neu nwy rydych wedi eu defnyddio dros y flwyddyn ddiwethaf (os rydych wedi bod gyda'ch cyflenwr am fwy na 12 mis)
- cymhariaeth â'ch defnydd o ynni dros yr un cyfnod y llynedd
- faint y dylech ddisgwyl ei dalu dros y flwyddyn nesaf: os byddwch yn defnyddio'r un faint o ynni ac yn aros ar yr un tariff, ar y pris presennol, gyda'r un cyflenwr.

## Cyfriflenni Ynni Blynyddol

Mae rheolau newydd gan Ofgem yn golygu bod yn rhaid i gyflenwyr roi cyfriflen ynni flynyddol i chi.

Gallai hon gyrraedd ar wahân. Neu gallai fod yn rhan o un o'ch biliau.

Mae eich cyfriflen ynni yn rhoi gwybodaeth ychwanegol werthfawr am eich defnydd o ynni dros y flwyddyn flaenorol. Byddwch yn gweld:

- sawl uned o drydan neu nwy rydych wedi eu defnyddio dros y flwyddyn ddiwethaf
- prif delerau eich contract
- manylion unrhyw bremiwm neu ostyngiad a gewch, o gymharu â thariff debyd uniongyrchol safonol eich cyflenwr
- nodyn i'ch atgoffa y gallwch newid cyflenwr
- gwybodaeth am lle y gallwch gael cyngor diduedd ar newid.

Bydd hyn yn eich helpu i reoli eich defnydd o ynni. Gallwch weld a oes angen unrhyw fesurau arbed ynni. Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth ar eich datganiad hefyd i weld a oes unrhyw gynigion gwell ar gael i chi.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Chris Lock, Uwch Swyddog y Wasg** 020 7901 7225 e-bost chris.lock@ofgem.gov.uk
**Alison Wright, Swyddog y Wasg** 020 7901 7217 e-bost alison.wright@ofgem.gov.uk